

Rhif: **31** *Enw'r Ardal Cymeriad Morwedd:*

# Ardal allanol y Ddau Gleddau




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020
Sources: Ordnance Survey, Seazone, Pembrokeshire Coast National Park Authority, Natural Resources Wales

**ACM31:Ardal allanol y Ddau Gleddau**



*Panorama yn edrych tua'r gogledd dros Fae Angle, gyda'r burfa olew yn y golwg ar y dde*



*Mouth of Milford Sound from near Rat Island, with ferry off St Ann's Head*



*In the mouth of the Sound approx 500m from shore*



*Sandyhaven Pill (©John Briggs)*



*Dale Roads with refinery in distance*

## Disgrifiad Cryno

Mae'r ardal yn ffurfio rhan allanol y Ddau Gleddau, sydd yn ria fawr gysgodol a foddwyd. Mae i geg y Swnt agwedd agored i'r môr gyda llanw a cherhyntau cryf, sy'n cyferbynnu â bae cysgodol Dale, traethau bychain ym Mae West Angle a mornentydd megis, er enghraifft, Mornant Sandyhaven. Mae cadwraeth natur yn amlwg, yn enwedig o gwmpas Dale, a cheyrydd arfordirol sy'n gysylltiedig â gwerth strategol hanesyddol yr Hafan. Mae'r ardal yn brysur gyda fferiau a llongau masnachol ac mae'r burfa ac isadeiledd egni a phorthladd yn ffurfio cefnlen i'r cyfan; mae'r ardal yn boblogaidd ar gyfer hamddena a hwylio, yn enwedig o gwmpas Dale.

## Nodweddion Allweddol

- Moryd mawr cysgodol a suddwyd gyda chlogwyni serth o dywodfaen coch a baeau cysgodol a chilfachau bas.
- Mae i geg y Ddau Gleddau gymeriad morol agored gyda cherhyntau cryfion ac ymchwydd y môr.
- Mae gorchudd tir y gefnwlad yn cynnwys tir âr agored a thir porfa gyda chloddiau isel, ac mae coetiroedd collddail mewn dyffrynoedd endoredig.
- Aneddiadau traddodiadol a chanoloesol.
- Nodweddion a chysylltiadau milwrol hanesyddol, gan gynnwys ceyrydd.
- Ceg porthladd naturiol prysur gyda llongau mawr, sy'n cynnwys tanceri a fferiau, yn ei ddefnyddio'r dyfroedd.
- Yn boblogaidd ar gyfer hwylio a gweithgareddau hamdden arall yn enwedig yng nghyffiniau Dale.
- Mae llwybr yr arfordir yn cwmpasu holl ymyl y môr.
- Golygfeydd eang a chynwysedig.

## Dylanwadau Ffisegol

Mae'r Ddau Gleddau yn glasur o esiampl o foryd (cilfach arfordirol a ffurfiwyd pan foddwyd dyffryn afon). Mae rhan allanol y Ddau Gleddau, sy'n agor tua'r de, wedi'i endorri drwy greigiau Silwraidd (ffurfiant Tywodfaen Lwyd), Hen Dywodfaen Coch Defonaidd (Ffurfiant Carreg Llaid Raglan, Ffurfiant Clymfaen Ridgway) a Chalchfaen Carbonifferaidd yn streicio o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae clogwyni coch yn amgylchynu ceg llydan y Ddau Gleddau tua'r gorllewin (Pentir y Santes Ann) a'r dwyrain (Pwynt Blocws y Dwyrain; Rat Island 23m aod, Ynys Defaid 36m aod). Mae cerrig dymchweledig yn leinio'r arfordiroedd. Mae'r pentir gorllewinol wedi'i fylchu gan faeau bas, tra i'r dwyrain mae Bae West Angle wedi'i endorri'n ddwfn. Ar ochr ogleddol y Ddau Gleddau (lle mae'r pentir ar uchder o 50 – 60m aod), mae'r tir yn goleddfu i arfordir sydd wedi'i endorri gyda baeau, dyffryn yr afon yn Hafan y Mynach, yr aber tywodlyd troellog ym Mornant Sandyhaven a'r aber llydan yn Dale. Mae'r ardaloedd rhynglanwol yn greigiog neu'n raeanaidd o gwmpas y pentiroedd (52%) ac yn dywodlyd yn y baeau (43%). Mae morfa heli yn ffurfio'n lleol (4%). Mae erydiad y gwynt a'r tonnau yn cael ei leihau yng ngheg yr aber. Mae'r aber llanwol yn ardal ddyddodiadol, gyda'r gwaddod yn cael ei gario drwy dyniant, daliant a neidiant.

Mae'r gwely môr bas (<30m) tywodlyd yn goleddfu'n raddol (<1°) yn yr aber ond mae iddo oleddf isel i gymedrol (1010o) ar draws ceg y sianel (<25m). Mae ardloedd creigiog yn ffurfio beisleoedd ar draws y sianel. Mae moroedd y Ddau Gleddau wedi'u cysgodi rhag don straen, ac maent yn llanwol iawn. Mae'r cerhyntau llanwol i'r gorllewin o Bentir y Santes Ann yn llifo i'r gogledd ddwyrain a'r de ddwyrain, gyda llif llanwol o <3 not.Yng ngheg y Ddau Gleddau mae'r cerhyntau llanwol yn llifo i'r gogledd ddwyrain / de orllewin, gyda llif llanwol o <2 not. Mae amrediad y llanw yn 6.1m.

Mae'r gorchudd tir yn dir amaeth cymysg o dir âr a phorfa gyda chloddiau a dorrwyd yn isel a ffensio mewn caeau lled-hirsgwar o faint canolig i'r gogledd a'r gorllewin ym mhenrhyn Dale ac o gwmpas St Ishmael, ac mewn caeau bach gan gynnwys lleiniau tir bwrdais, sy'n gysylltiedig â phentref Angle yn y dwyrain. Mae dyffrynoedd coediog bach, gydag ochrau serth, yn torri drwy'r llwyfandir iseldir i'r gogledd. I'r gogledd o Dale mae'r bae yn troi yn ardal gorslyd fawr gyda dŵr a gadwyd.

Mae'r dyfroedd yn ffurfio rhan o SAC forwedd Sir Benfro. Mae'r arfordir i'r gorllewin y ffurfio rhan o SoDdGA Arfordir Deheuol Marloes, mae arfordir y gogledd, yr aberoedd a'r gwlyptiroedd yn ffurfio rhan o SoDdGA Dyfrffordd Aberdaugleddau ac mae'r de ddwyrain yn rhan o SoDdGA Arfordir Penrhyn Angle. Mae'r cynefinoedd lled-naturiol yn amrywio o fflatiau llaid rhynglanwol yn amfae bas Bae Angle i goetir collddail cymysg yr iseldir. Mae ardaloedd y clogwyni yn cynnwys mosäig o borfa garw a phrysgoed, gyda rywogaethau sy'n cynnwys y frân goesgoch a'r hebog tramor. Yn ystod y gaeaf mae aber cyfroddol bach Sandy Haven yn cynnal sawl rhywogaeth o adar. Mae HPMCZ arfaethedig a fydd yn ymestyn o'r lan yn Dale [Fflatiau Gann] tua'r dwyrain i Watch House Point a'r de, ac yna i'r gorllewin i Bentir Dale. Mae'r cynefinoedd pwysig yn cynnwys graeanau lleidiog cysgodol a gwaddodion lleidiog cymysg islanwol.

**Dylanwadau Diwylliannol**

Y Ddau Gleddau yw'r bedwaredd ddyfrffordd brysuraf yn Ynysoedd Prydain, a disgwylir y bydd tunnelledd llwytho yn cynyddu yn y blynyddoedd sydd i ddod. Y Ddau Gleddau yw un o'r ychydig borthladdoedd naturiol dŵr dwfn yn Ynysoedd Prydain sy'n agored i longau mewn pob tywydd ac ar unrhyw adeg o'r llanw. Mae'n fynedfa i glasur o 'borthladd noddfa', yn gartref i'r Llynges Frenhinol ac erbyn hyn yn rhan annatod o isadeiledd olew a nwy Prydain.

Mae'r ardal yn arbennig o gyfoethog o ran cymeriad morwedd hanesyddol. Mae claddedigaethau o'r canol oesoedd wedi'u cadarhau ym Mae West Angle. Adeiladwyd pâr o flocysau gan Harri'r VIII i amddiffyn Aberdaugleddau. Yn ddiweddarach adeiladwyd cadwyn o geyrydd i'w amddiffyn rhag Napoleon III – Ynys Thorn ar yr ochr ddeheuol, South Hook i'r gogledd, Craig Stock ar graig yng nghanol y sianel a Chaer Dale, a adeiladwyd o fewn rhagfuriau caer bentir gynharach.

Mae henebion rhestredig yn cynnwys:

- PE307 (caer bentir): cymuned: Herbrandston
- PE334 (caer): cymuned: Herbrandston
- PE411 (caer bentir): cymuned : Angle
- PE554 (mynwent): cymuned: Angle
- PE566 (maes awyr): cymuned: Marloes a Sain Ffraid (yn rhannol yn SCA25 a SCA26)

Mae rhan o'r ardal hon o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Eithriadol Dyfrffordd y Ddau Gleddau. Mae Angle yn ardal gadwraeth sy'n ymestyn mor bell â Bae West Angle.

Mae dros 20 llongddrylliad yn yr ardal sydd yn adlewyrchu ei ddefnydd dwys. Mae'r rhain yn cynnwys llongau milwrol megis HMS Leda sy'n gorwedd ym Mae West Angle a HMS Caroline a HM MGB12 sy'n gorwedd gerllaw'r brif sianel. Mae rhai o'r llongddrylliadau'n dyddio'n ôl i ddiwedd y 19eg ganrif, tra y suddwyd eraill yn y 1970au.

Fel yn achos SCA 32A - Aberdaugleddau oedd man glanio Harri Tudur, Harri'r VII, a fartsiodd oddiyma i orchfygu a lladd Rhisiart III ar faes Bosworth. Yn *Cymbeline*, mae Imogen yn cyfeirio at 'Milford'.

Dale yw prif aneddiad yr ardal, ac mae'n canolbwyntio ar hwylio a hamddena, gyda chyrion aneddiad wledig St Ishmael i'r gogledd. Fel arall mae'r aneddiad yn cynnwys ffermydd a thai

gwasgaredig. Mae strwythurau graddfa fawr adeiladau terfynfa LNG ac isadeiledd perthnasol arall i'w gweld tua'r dwyrain.

Mae'r mynediad i'r Ddau Gleddau i danceri mawr drwy dramwyfa gul, sy'n mynd heibio i'r goleudy ar Bentir y Santes Ann, er bod y pentiroedd gyferbyn, ar y culaf, dros ddau gilomedr i ffwrdd o'u gilydd.

Mae llongau masnach yn ymgasglu ar gyrion Dyfrffordd brysur y Ddau Gleddau – o ran ei faint, porthladd Aberdaugleddau yw trydydd porthladd y Deyrnas Gyfunol (DG) ac mae'n trafod 29% o fasnach môr olew a nwy y Deyrnas Unedig. Mae'r gweithgaredd sy'n pasio drwy'r Ddau Gleddau allanol, a sy'n ymwneud â gweithgareddau'r porthladd yn cynnwys tynfadau, llongau gwasanaeth a llongau peilot ynghyd â gwaith carthu o bryd i'w gilydd. Mae fferi o Ddoc Penfro yn tramwyo'r dyfroedd hyn yn gyson. Mae llongau pysgota masnachol yn hwylio o Aberdaugleddau. Mae cychod criwsio iot a modur yn hwylio o ddau farina yn uwch i fyny'r afon yn ogystal ag o nifer fawr o angorfeydd sigl ar hyd y ddyfrffordd. Mae goleudy ar Bentir y Santes Ann ger y mynediad i Ddyfrffordd y Ddau Gleddau. Mae goleuadau mordwyo, marciau a bwiau masnach arwyddocaol ar hyd yr aber yn ogystal â marciau eraill at ddefnydd mordwyo hamdden.

Mae pysgota môr yn arbennig o boblogaidd, gyda chychod bach yn aml wedi'u hangori ger Pentir y Santes Ann, yn ogystal â physgota oddiar greigiau a thraethau, yn enwedig ym Mae Angle. Mae'n bosib dod ar draws caiacio, rhwyfo a syrffio gwynt o gwmpas yr arfordir hwn. Mae hwylio cychod bach a iotiau, gan gynnwys rasio, yn digwydd drwy gydol y flwyddyn. Mae llwybr criwsio sy'n gweld defnydd trwm oddiyma o gwmpas yr arfordir tua'r gorllewin i Abergwaun, ar draws Môr Hafren ac i fannau tua'r dwyrain megis Dinbych y Pysgod. Hefyd mae llwybrau niferus dros y môr i'r Iwerddon. Mae Dale Roads yn cynnig sawl angorfa sigl gydag ysgraff a llithrfa yn y pentref gerllaw. Mae ysgolion hwylio a syrffio yno ac mae'r myfyrwyr sy'n eu mynychu yn defnyddio'r bae. Mae syrffio gwynt yn boblogaidd ger Dale ac Angle. Mae llithrfa yn West Angle. Mae teithiau llong bywyd gwyllt yn hwylio o Dale neu'n tramwyo'r dyfroedd hyn ar eu ffordd i'r ynysoedd. Cynhelir gweithgareddau traeth ym maeau neilltuedig Watwick, Dale a Sandy Haven ac ym Mae West Angle ar draws y dŵr tua'r de, wedi'i cysgodi rhag y gwyntoedd deheuol….

Mae Canolfan Maes Caer Dale wedi'i lleoli ar bentir ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ymchwil gwyddonol arfordirol ac astudiaethau maes. Yn y Gann yn Dale mae fflatiau llaid a lagŵn sy'n boblogaidd ar gyfer gwylio bywyd gwyllt. Mae ynys amlwg – Ynys Thorn – ger Angle a Thŵr Martello i'r gogledd.

Mae pysgota'r ardal yn cynnwys casglu cocos a chyllyll môr â llaw, pysgota sân o'r traeth a rhwydi traeth, rhwydi gosod yn y dyfroedd allanol o gwmpas y ceg, potio am gimychiaid a chrancod a threillio ysgafn.

Yn y gorffennol rhoddwyd trwydded Rownd 24 i'r ardal ar gyfer olew a nwy a gellir gwneud ceisiadau yn y dyfodol.

**Nodweddion esthedig, canfyddiadol a phrofiadol**

Mae 'na wrthgyferbyniad o ran graddfa a noethni rhwng y coridor môr agored a noeth wrth geg y Ddau Gleddau a'r baeau mwy cysgodol, gyda'u golygfeydd mwy cyfyng. Mae baeau West Angle a Dale yn teimlo'n gysgodol a diogel iawn. Yng ngheg yr aber gall llongau wynebu ymchwydd mawr a cherhyntau, yn enwedig yn y gorllewin, ac mae hyn yn cyferbynnu â llonyddwch cymharol y porthladd.

Mae gweadau garw a gerwin ymylon y clogwyni tywodfaen coch yn cyferbynnu â'r llwyfandir agored âr a gwledig, a'r bryniau isel, tawel.

Ar y distyll, mae'r traeth caregog, llifwaddodol agored yn Dale yn ymestyn ymhell, a bydd arogl cryf o wymon. Mae'r tai yn Dale wedi'u paentio'n lliwgar ac mae'n lle prysur, yn enwedig yn ystod yr haf gyda'r holl gychod a'r gweithgareddau gwyliau. Mae hyn mewn cyferbyniad â rhannau mwy enciliol yr ardal. Mae naws am le cryf ym mhentref Dale, ac yn yr hen geyrydd sydd mewn amrywiol gyflwr.

Mae'r golygfeydd yn amrywio o olygfeydd agored i'r môr heibio i bentiroedd y Santes Ann a Rat Island, gyda goleudai a mastiau'n torri'r nenlinell, i ardaloedd megis Dale, lle mae'r golygfeydd cynwysiedig wedi eu gosod yn erbyn golygfeydd pell o'r purfeydd. Ambell waith bydd llongau, gan gynnwys fferïau, yn rhoi ffocws morol i'r cyfan.

Mae cyferbyniad cryf rhwng yr ardal wledig, naturiol a thawel hon â'r porthladdoedd mewnol

sydd dan drem cyfleusterau graddfa fawr y porthladd ac egni, aneddiad a'i oleuadau cysylltiedig, a'r cyfan yn ffurfio cefnlen sylweddol i lawer golygfa.

**Buddion a gwasanaethau diwylliannol**

Mae'r ardal yn cyfrannu'n sylweddol tuag at wasanaethau hamdden ar ffurf hamdden morol a thraethau, i dreftadaeth naturiol oherwydd ei arfordir clogwynog a baeau garw, ei forgeinciau a'i gorsydd. Mae'r cysylltiadau diwylliannol yn gryf iawn gyda'r hen bentrefi a'r patrymau cae, a'r cysylltiadau gyda hanes milwrol a llongau'r llynges frenhinol, ac mae'r ardal yn dal yn ffocws pwysig i ddiwydiant sy'n ymwneud ag egni a gweithgarwch llongau masnach.

**Grymoedd am newid**

| Crynodeb | | Grymoedd Allweddol am newid | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sinc gwaddod yw'r aber. Yn gyffredinol mae'r cynllun rheoli'r traethlin yn dweud 'gwnewch dim byd'. Yn Dale y cynllun rheoli'r traethlin yw i 'ddal y lein' er mwyn amddiffyn asedau'r pentref.<br><br>Mae erydiad arfordirol yn achosi i henebion i gwympo i'r môr e.e. Blocws y Dwyrain.<br><br>Bydd lefel y gweithgareddau yn y dyfroedd yn cynyddu wrth i'r drafnidiaeth ym mhorthladd Aberdaugleddau gynyddu, yn enwedig o ystyried LNG.<br><br>Pwysau gan ymwelwyr ar fannau hamdden poblogaidd, gan gynnwys Dale.<br><br>Pwysau o du datblygu llety gwyliau.<br><br>Effaith diwydiant a llongau ar ecoleg a llonyddwch.<br><br>Y posibilrwydd o ddwysáu ffermio tir âr - am datws er enghraifft - gan arwain at golli cynefinoedd megis cloddiau. | **Nodweddion Arbennig** | Prosesau naturiol/newid yn | Pwysedd ymwelwyr | Defnydd morol - masnachol | Egni ar y môr | Pwysedd datblygiad | Newid mewn rheolaeth tir | Defnydd gan y |
| | Ysblander yr arfordir | | | ■ | ■ | | | |
| | Ynysoedd | | | | | | | |
| | Amrywiaeth yn y tirlun | ■ | | | | | | |
| | Pellter, llonyddwch ac Ardal Wyllt | | ■ | ■ | | ■ | | |
| | Daeareg Amrywiol | | | | | | | |
| | Cyfoeth o Gynefinoedd a Bio-amrywiaeth | | | ■ | | | ■ | |
| | Cyfoeth o Archaeoleg | ■ | | | | | | |
| | Cymeriad Nodweddiadol yr Aneddiad | | | | | ■ | | |
| | Treftadaeth Ddiwylliannol | | ■ | | | | | |
| | Mynediad at y Parc | ■ | | | | | ■ | |
| | Lle i Anadlu | | ■ | | | | | |
| | Allwedd | ■ | Newid i'r ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisol | | | | | |

**Sensitifeddau Allweddol**

| |
|---|
| Clogwyni pell nas difethwyd a baeau ac aberoedd cysgodol. |
| Pennau taith hamdden poblogaidd megis Dale er enghraifft. |
| Diddordeb cadwraeth natur yn enwedig o gwmpas Dale. |
| Hanes milwrol a morol coeth. |
| Llwybr Arfordir Sir Benfro fel derbynnydd sensitif. |
| Llongau masnachol a phurfa olew gerllaw a defnydd arall o dir at ddibenion diwydiannol a threfol. |
| Presenoldeb gweithgareddau hamdden sefydledig. |
| Moryd cynwysedig a amgylchynir gan y bryniau a’r llwyfandir o gwmpas. |
| Goleuadau sy’n gysylltiedig ag aneddiadau, llongau a diwydiant. |